RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 12/2019
DYDDIAD CYHOEDDI: 14/03/2019

# Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi: Adroddiad sylfaenol

**Crynodeb Gweithredol**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am drethi amrywiol yng Nghymru, gan gynnwys y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau Treth Incwm Cymru. Ynghyd â'r dreth gyngor a chyfraddau annomestig, bydd oddeutu £5 biliwn o refeniw trethi datganoledig a lleol yn cael ei godi bob blwyddyn o fis Ebrill 2019 i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Deddf Cymru 2014 hefyd yn rhoi pwerau newydd i Lywodraeth Cymru i greu trethi newydd mewn meysydd o allu datganoledig, yn unol â chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU.

1.2 I helpu i fonitro effeithiolrwydd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a gwybod lle i ganolbwyntio'r ymgysylltu, mae angen gwybodaeth am ymwybyddiaeth y cyhoedd a dealltwriaeth o ddatganoli trethi yng Nghymru. Er mwyn diwallu'r anghenion tystiolaeth hyn, gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys cwestiynau ar ddatganoli trethi yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (2016-17 a 2017-18)1 a chomisiynodd gwestiynau ychwanegol yng ngham mis Mehefin 2018 o Arolwg Omnibws Cymru (a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd)2.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau sylfaenol y gellir eu defnyddio fel modd i fonitro newidiadau mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi yng Nghymru. Bydd y dadansoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i lywio sut y caiff cyfathrebiadau eu targedu ymhlith gwahanol grwpiau o'r boblogaeth.

## 2. Rheolaeth dros drethi sy'n cael eu talu yng Nghymru

**Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi y maen nhw'n eu talu yng Nghymru.**

2.1 Dywedodd oddeutu dwy ran o dair o ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru (66 y cant yn ystod 2016-17 a 67 y cant yn ystod 2017-18) mai Llywodraeth y DU oedd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi

[1] Gofynnwyd cwestiynau i sampl gynrychiadol o 2,544 o oedolion yn ystod 2016-17, ac 1,856 o oedolion yn ystod 2017-18.
[2] Gofynnwyd cwestiynau i sampl gynrychiadol o 1,006 o oedolion.

maen nhw'n eu talu yng Nghymru, a dywedodd oddeutu un o bob deg ohonynt (13 y cant yn ystod 2016-17 a 10 y cant yn ystod 2017-18) mai Llywodraeth Cymru oedd â'r rheolaeth fwyaf.

2.2 Roedd cyfran y rhai a oedd yn dweud 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn ynghylch pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi y maen nhw'n eu talu'n tueddu i fod yn uwch ymhlith yr ymatebwyr canlynol:

- pobl rhwng 16 a 34 oed;
- heb gymhwyster; ac
- yn byw ym Mae Abertawe neu'r Cymoedd.

## 3. Ymwybyddiaeth o wahanol drethi

**Mae llai o ymwybyddiaeth gan y cyhoedd o dreth ar deithiau awyr a threth ar wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi o'u cymharu â threthi eraill.**

3.1 Roedd bron pob un a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 wedi clywed am Dreth Incwm (97 y cant), Treth ar Werth (96 y cant) a'r Dreth Gyngor (98%), ac roedd oddeutu wyth o bob deg ohonynt wedi clywed am Dreth Stamp (81 y cant) a threth ar alcohol (82 y cant).

3.2 Mewn cymhariaeth, roedd llai na hanner yr ymatebwyr wedi clywed am dreth ar deithiau awyr o Gymru (47 y cant) a threth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (42 y cant).

## 4. Datganoli trethi

**Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gwybod y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu gosod rhai trethi yng Nghymru o fis Ebrill 2018 ymlaen.**

4.1 Cyn i'r Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi gael eu datganoli ym mis Ebrill 2018, gofynnwyd i ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru pa drethi yr oeddent yn credu y byddai'n cael eu datganoli i Gymru o fis Ebrill 2018 ymlaen. Atebodd oddeutu traean ohonynt (35 y cant yn 2016-17 a 30 y cant yn 2017-18) yn gywir y byddai'r Dreth Stamp yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, ac atebodd oddeutu pedwar o bob deg ohonynt (45 y cant yn 2016-17 a 40 y cant yn 2017-18) yn gywir y byddai'r dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi'n cael ei datganoli i Gymru.

4.2 Ar ôl i'r trethi hyn gael eu datganoli, dywedodd oddeutu pedwar o bob deg o'r ymatebwyr (38 y cant) i gam mis Mehefin 2018 Arolwg Omnibws Cymru eu bod yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir (a ddisodlodd y Dreth Stamp yng Nghymru) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (a ddisodlodd y Dreth Dirlenwi yng Nghymru).

4.3 Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r trethi trafodion tir a thirlenwi yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru yn tueddu i fod yn uwch ymhlith yr ymatebwyr canlynol:

- gyda chymhwyster gradd neu'n uwch;
- grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1; ac
- yn byw yng nghanolbarth a gorllewin Cymru neu yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru.

4.4 Dywedodd tua chwarter yr ymatebwyr i Arolwg Omnibws Cymru (24 y cant) eu bod yn ymwybodol y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu gosod gwahanol gyfraddau o dreth incwm yng Nghymru o fis Ebrill 2019. Roedd yr ymwybyddiaeth o hyn yn tueddu i fod yn uwch ymhlith yr ymatebwyr canlynol:

- pobl 55 oed ac yn hŷn;
- o grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1; ac
- yn byw yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru.

## 5. Rheolaeth dros drethi penodol

*Roedd ymatebwyr yn llai tebygol o nodi'n gywir pwy oedd yn gyfrifol am osod trethi ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi o'u cymharu â threthi eraill.*

5.1 Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ceisio pennu barn yr ymatebwyr ar bwy oedd â’r rheolaeth fwyaf dros amrediad o drethi (cynghorau lleol, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU). Gofynnwyd y cwestiynau hyn cyn i'r Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau Treth Incwm Cymru gael eu datganoli.

5.2 Yn 2017-18, nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gywir mai Llywodraeth y DU oedd â'r rheolaeth fwyaf dros Dreth Incwm (72 y cant), TAW (79 y cant), Treth Stamp (69 y cant) a'r dreth ar alcohol (81 y cant).

5.3 Roedd y darlun yn llai amlwg ar gyfer treth ar deithiau awyr o Gymru, gydag oddeutu hanner yr ymatebwyr yn 2017-18 (48 y cant) yn dweud yn gywir mai Llywodraeth y DU oedd â'r rheolaeth fwyaf dros osod y dreth hon, ond dywedodd traean ohonynt (34 y cant) mai Llywodraeth Cymru oedd â'r rheolaeth fwyaf.

5.4 Dywedodd mwy na phedwar o bob deg ymatebydd (45 y cant) yn 2017-18 yn gywir mai cynghorau lleol sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, a dywedodd oddeutu traean ohonynt (32 y cant) mai Llywodraeth Cymru oedd â'r rheolaeth fwyaf.

5.5 Roedd rhaniad sylweddol rhwng yr ymatebwyr ynghylch pwy oeddent yn credu oedd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r dreth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru, gydag oddeutu traean ohonynt (32 y cant) yn 2017-18 yn dweud yn gywir mai Llywodraeth y DU oedd hon, a bron i bedwar o bob deg ohonynt (38 y cant) yn dweud mai Llywodraeth Cymru oedd hon.

5.6 Ar draws y mwyafrif o'r trethi hyn, roedd ymatebwyr 35-54 oed gyda chymwysterau lefel gradd neu'n uwch yn tueddu i fod yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill o nodi'n gywir pwy oedd â'r rheolaeth fwyaf dros drethi penodol.

## 6. Cysylltiad rhwng refeniw trethi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

**Byddai mwy na saith o bob deg ymatebydd i Arolwg Omnibws Cymru (72 y cant) yn disgwyl i'r holl arian a godwyd o drethi yng Nghymru, neu'r rhan fwyaf ohono, fynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.**

6.1 Roedd cyfran y bobl a ddywedodd yn gywir fod yr holl arian a godir o drethi yng Nghymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn uwch ymhlith y rhai hynny a oedd yn byw yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru (34 y cant) ac ar ei hisaf yng ngogledd Cymru (22 y cant).

Awduron: Nerys Owens ac Ian Jones (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Owens, N. a Jones, I. (2019). *Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi: Adroddiad sylfaenol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 12/2019.>
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/public-understanding-tax-devolution/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Nerys Owens
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 8586
E-bost: nerys.owens@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron: ISBN digidol 978-1-78964-949-9